



Economeg Iechyd a Gofal Cymru

Health and Care Economics Cymru



Ymchwil Iechyd
a Gofal Cymru
Health and Care
Research Wales



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

2020 - 2021

Adroddiad Blynyddol



CYNNWYS

Croeso i Economeg Iechyd a Gofal Cymru!	2
Adolygiad o Flwyddyn Anodd - Rhagair	4
Tîm Economeg Iechyd a Gofal Cymru	5
Crynodeb o'r Flwyddyn	6
Ein Metrigau Allweddol	6
Cipolwg ar ein Blwyddyn	7
Uchafbwyntiau ein Meysydd Effaith	8
Diweddariadau ar Becynnau Gwaith	10
Pecyn Gwaith 1: Sicrhau Cymaint ag sy'n Bosibl o Gydwethio ag Ymchwilyr Iechyd a Gofal	11
Pecyn Gwaith 2: Cynnwys ac Ymgysylltu â Chleifion a'r Cyhoedd	14
Pecyn Gwaith 3a: Darparu Cyngor a Chefnogaeth Economeg Iechyd	16
Pecyn Gwaith 3b: Cyfrannu arbenigedd economeg iechyd at brosesau gwneud penderfyniadau a llunio polisi	19
Pecyn Gwaith 4: Adeiladu Capasiti a Gallu mewn Economeg Iechyd Fethodolegol a Chymhwysol	20
Ein Cydweithrediadau	22
Casgliad - Dysgu Gwersi ac Edrych Ymlaen	24

CROESO I ECONOMEG IECHYD A GOFAL CYMRU!

Mae Economeg Iechyd a Gofal Cymru (HCEC) yn grŵp seilwaith ymchwil cydweithredol ar gyfer Cymru gyfan ac rydym yn falch o gael ein hariannu gan Lywodraeth Cymru drwy Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru (HCRW) tan 31 Mawrth 2023. Roeddem yn arfer cael ein hadnabod fel Gwasanaeth Cymorth Economeg Iechyd Cymru (WHESS). Fel HCEC, mae ein nod wedi esblygu i ddarparu rhagoriaeth o'r radd flaenaf mewn ymchwil economeg iechyd, ei fethodoleg a'i gymhwysiad. Rydym yn ceisio tyfu a chynnal cymuned o arbenigwyr economeg iechyd yng Nghymru â chydweithrediadau cryf ar draws y sector iechyd a gofal er mwyn gwneud gwahaniaeth i ymchwil iechyd a gofal.

EIN CENHADAETH

'Darparu arbenigedd o'r radd flaenaf ym maes economeg iechyd (gan weithio gyda'n gilydd a defnyddio dull ystyrydd, integredig ar gyfer Cymru gyfan) er mwyn galluogi gwasanaeth ymchwil a datblygu rhagorol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru er budd cleifion, y cyhoedd a'r economi.'

Un o gryfderau amlwg Economeg Iechyd a Gofal Cymru yw ein gallu i ymestyn ar draws y gymuned ymchwil iechyd a gofal yng Nghymru ynghyd â'n cyfraniad at bolisi ac ymarfer. Rydym yn cyflawni hyn drwy ein cydweithrediadau a'n partneriaethau gyda'r GIG a sefydliadau gofal a chyrrff gwneud penderfyniadau, ac rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth ymgysylltu â chleifion a'r cyhoedd a'u cynnwys yn ein gwaith.

Fel rhanddeiliaid yr ydym yn eu gwerthfawrogi'n fawr, mae ein hadroddiad yn rhannu crynodeb o'n blwyddyn gyntaf gyda chi. Rydym yn gwneud hynny drwy dynnu sylw at ein metrigau allweddol a'n cyflawniadau, ynghyd ag arddangos yr enghreifftiau gorau o'n pedwar pecyn gwaith (gweler tudalen 10). Rydym yn falch o rannu sut rydym wedi gwneud gwahaniaeth yn ystod 2020/21 a sut rydym yn dangos ein heffaith drwy arwain a chefnogi ymchwil.

Rydym yn cyflawni hyn drwy ein hamcanion i:

1

Sicrhau cyfeiriad strategol, cydweithredol, drwy Gymru gyfan ar gyfer economeg iechyd, sy'n gydnaws â blaenoriaethau ar gyfer Cymru.

2

Sicrhau bod Cynnwys ac Ymgysylltu â Chleifion a'r Cyhoedd yn rhan greiddiol o bopeth rydym yn ei wneud.

3

Darparu mynediad rhwydd at gefnogaeth economeg iechyd i ymchwilwyr sy'n gweithio yn seilwaith HCRW.

4

Sicrhau cymaint ag sy'n bosibl o gydweithrediad â'r gymuned ymchwil iechyd a gofal er mwyn gwneud yn siŵr bod y dystiolaeth orau posibl ar gael i helpu i wneud penderfyniadau ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth a threthdalwyr.

5

Darparu cyngor a chefnogaeth ar gyfer gwneud penderfyniadau, llunio polisiau a dadansoddi drwy ymwneud â phwyllgorau mewn gwaith sydd wedi'i dargedu.

6

Gwella capasiti a gallu ar draws y gymuned economeg iechyd yng Nghymru, drwy ddatblygu canolbwynt methodolegol ar gyfer Cymru gyfan ym maes economeg iechyd.

7

Cynyddu ymwybyddiaeth o economeg iechyd ym maes iechyd a gofal gyda'n rhanddeiliaid allweddol.

PAM Y MAE ANGEN ECONOMEG IECHYD?

Mae pandemig COVID-19 wedi dangos bod ein hadnoddau iechyd a gofal yn gyfyngedig. Mae gan bob dewis rydym yn ei wneud ynglŷn â sut i ddyrannu ein hadnoddau prin (e.e. i liniaru effaith COVID-19) gost cyfle. Golyga hyn fod angen i ni aberthu un gwasanaeth er mwyn darparu un arall, a bydd gan bob penderfyniad ganlyniadau iechyd a gofal negyddol anfwriadol, gyda rhai grwpiau mewn cymdeithas yn cael eu heffeithio'n fwy na'i gilydd. O ganlyniad mae'n rhaid i ni ddeall gwerth am arian, neu gost-effeithiolrwydd, y technolegau, ymyriadau a gwasanaethau iechyd rydym yn eu darparu. Bydd hyn yn ein galluogi i leihau anghydraddoldeb, helpu i flaenoriaethu adnoddau'n deg, a sicrhau cynaliadwyedd ein system iechyd a gofal er budd pobl Cymru. **Gallwch ddarganfod mwy ynglŷn â beth rydym yn ei wneud a sut y gallwn helpu ar ein gwefan: <https://economegiechydagofal.cymru/>**

ADOLYGIAD O FLWYDDYN ANODD

Yn ystod 2020/21, wynebodd systemau iechyd a gofal ac amgylcheddau ymchwil amhariadau na welwyd eu tebyg o'r blaen yn ystod COVID-19, gyda llawer o gleifion yn methu â derbyn y gofal yr oedd arnynt ei angen a llawer o dreialon a phrosiectau'n cael eu rhoi ar stop neu eu dal yn ôl yn ystod cyfnod o argyfwng cenedlaethol.

Er gwaetha'r heriau, daliasom i gynyddu ein cyfraniad tuag at bolisi a gwneud penderfyniadau, e.e. drwy gefnogi Llywodraeth Cymru a Chanolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru mewn cysylltiad ag effaith y pandemig ar systemau iechyd a gofal ledled Cymru. Fe wnaethom ddarparu synthesis cyflym a thrylwyr o dystiolaeth economeg iechyd er mwyn sicrhau bod Cymru yn gallu cyflawni'r ymyriadau a'r gwasanaethau sydd o'r gwerth mwyaf wrth i ni ymateb i'r pandemig a dysgu gwersi.

Parhaodd ein gweithgaredd datblygu ceisiadau a'n cyfradd drosi i ddyfarniadau sy'n cael eu hariannu yn iach, ag 1 o bob 3 chais yn llwyddiannus at ei gilydd, ac 1 o bob 2 gais ymchwil sy'n cael ei arwain gan HCEC yn arwain at ddyfarniadau. Buom yn cydweithio ar geisiadau gyda grwpiau seilwaith HCRW eraill, Unedau Treialon Clinigol (CTU) a Gwasanaethau Cynllunio a Chynnal Ymchwil (RDCS) ledled Cymru. Fel canolfan gydnabyddedig yn y DU a thu hwnt, rydym yn dod ag incwm ac enw da i Gymru drwy ein rhwydweithiau cynyddol ar draws y DU, gan gynnwys Prifysgol Lerpwl, Coleg y Brenin a Choleg y Brifysgol Llundain a Phrifysgol Nottingham. Yn ystod 2020/21, cyhoeddwyd 94% o'n

cyhoeddiadau mewn cyfnodolion Mynediad Aur. Mae ein hymrwymiad i feithrin capasiti ym maes economeg iechyd yng Nghymru yn parhau gan fod nifer o'n hymchwilwyr wedi ymgymryd â swyddi cyngori ar bwyllgorau a phaneli gwneud penderfyniadau cenedlaethol.

Yn unol ag un o amcanion hollbwysig ein blwyddyn gyntaf, buom yn canolbwyntio ar ymwreiddio cynnwys ac ymgysylltu â'r cleifion a'r cyhoedd (PPIE) yn ein gwaith a byddwn yn defnyddio'r sylfeini cadarn a adeiladwyd gennym y llynedd er mwyn datblygu ein rhaglen ar gyfer ymgysylltu yn y dyfodol (gweler tudalennau 14-15).

Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at ein prif gyflawniadau, gan gynnwys ein hymateb i bandemig COVID-19, creu Hwb Methodolegol Economeg Iechyd Cymru gyfan, ein cyfraniadau tuag at ganolfan NIHR ar gyfer iechyd byd-eang a threial canser a allai fod yn 'drobwynt'. Rydym hefyd yn dangos effaith ein gwaith gyda Byrddau Iechyd GIG Cymru fel sail i Bolisi Llywodraeth Cymru ar werth ymyriadau ffordd o fyw i bobl sydd â'r cyflwr cyn-ddiabetes yng Nghymru.

Gobeithio y byddwch yn mwynhau ei ddarllen!

TÎM HCEC

Mae tîm HCEC wedi'i leoli yn y ddwy uned economeg iechyd sydd yng Nghymru, y naill ym Mhrifysgol Bangor a'r llall ym Mhrifysgol Abertawe. Cefnogwyd ein hamcanion yn llwyddiannus yn ystod 2020/21 gan ein model cyd-gyfarwyddiaeth newydd, yn cael ei gefnogi gan y cyd-ymgeiswyr, rheolwyr prosiectau a'r bwrdd rheoli a bwrdd cyngori sydd wedi'i gryfhau.

EIN BWRDD RHEOLI



*Yr Athro. Rhiannon Tudor
Edwards
Cyd-gyfarwyddwr HCEC*



*Yr Athro. Deb
Fitzsimmons
Cyd-gyfarwyddwr HCEC*

RHEOLWYR PROSIECTAU:

Dr Catherine Lawrence

Dr Liv Kosnes

AELODAU ERAILL:

Yr Athro Dyfrig Hughes

Dr Pippa Anderson

Dr Joanna Charles

Dr Berni Sewell

Dr Llinos Haf Spencer

Ann Lawton

EIN BWRDD CYNGHORI

Yr Athro. Steve Morris (Prifysgol Caergrawnt) - CADEIRYDD

Dr Brendan Collins (Llywodraeth Cymru)

Yr Athro Ceri Phillips (Prifysgol Abertawe)

Prof. Rod Taylor (Prifysgol Glasgow)

Dr Lisa Trigg (Gofal Cymdeithasol Cymru)

Dr Angela Boland (Prifysgol Lerpwl)

Prof. Monica Busse (Prifysgol Caerdydd)

Cynrychiolwyr Cleifion a'r Cyhoedd: Mrs Karen Harrington a Mr Nathan Davies

YMCHWILWYR HCEC

Dr Mari Jones

Dr Lorna Tuersley

Dr Shaun Harris

Rhys Pockett

Dr Ned Hartfiel

Dr Victory Ezeofor

Dr Simon Read

Dr Eira Winrow

Dr Mary Lynch

Dr Carys Jones

Katherine Cullen

Dr Lucy Bryning

Bethany Anthony

Julia Lowin

Dr Narayan Poudel

CRYNODEB O'R FLWYDDYN

EIN METRIGAU ALLWEDDOL

Mae crynodeb o fetrigau allweddol 2020/21 i'w weld yn y ffeithlun isod:

**Gwobr seilwaith
Ymchwil lechyd a
Gofal Cymru i'r grŵp**



Cyllid
uniongyrchol
a ddyfarnwyd

£385k

Swyddi a
grëwyd drwy
gyllid
uniongyrchol



Grantiau a enillwyd yn ystod y cyfnod adrodd

Grantiau a enillwyd	Dan arweiniad y grŵp	Grŵp yn cydweithio
Nifer	7	7
Gwerth	£357k	£4.9m
Cyllid i Gymru	£330k	£1.5m
Cyllid i grŵp	£330k	£676k
Swyddi ychwanegol a grëwyd ar gyfer Cymru	5	14
Swyddi ychwanegol a grëwyd ar gyfer grŵp	5	2



Nifer y cyhoeddiadau



Nifer y digwyddiadau
ymgysylltu â'r cyhoedd



Nifer y cyfleoedd i'r
cyhoedd gymryd rhan

TRAWSNEWID O WHESS I HCEC

Rydym yn falch iawn o adrodd ein llwyddiant wrth sicrhau 7 gwobr newydd lle cychwynnwyd ar gydweithredu cyn ein dyfarniad cyllido HCEC cyfredol. Cyfrannodd y gwobrau hyn £ 1.92 miliwn i Gymru. Llongyfarchiadau arbennig i Dr Emily Holmes am arwain y wobwr lwyddiannus i ymchwilio i'r defnydd o ddiagnosteg gyflym i leihau rhagnodi gwrthfotigau yn y Gwasanaeth Iechyd yng Nghymru fel Prif Ymchwilydd ac i Dr Pippa Anderson sy'n Gyd-Brif Ymchwilydd gyda'r Athro Barbara Ryan, Prifysgol Caerdydd ar y prosiect r H2C sy'n nodi gwerth optometryddion cymunedol wrth reoli clefyd cronig y llygaid.

CIPOLWG AR EIN BLWYDDYN

Yn 2020/21, roedd ein prif gyflawniadau yn erbyn ein hamcanion (a ddisgrifiwyd ar dudalen 3) yn cynnwys:

1

Cynhadledd ar-lein lwyddiannus gyntaf Grŵp Economegwyr Iechyd Cymru (WHEG), lle **daethom â phobl sy'n rhan o'r gymuned economeg iechyd ledled Cymru at ei gilydd** i drafod cyfeiriad economeg iechyd yn y dyfodol a'r methodolegau yng Nghymru (gweler tudalen 21).

2

Y cyd-gynhyrchiad arbennig fel rhan o astudiaeth Fy Opsiynau a Dewisiadau gyda chleifion â chlefyd yr arenau sydd ar ddialysis a'u gofalwyr a **enillodd y wobwr arbennig yn y categori Cynnwys y Cleifion a'r Cyhoedd yng nghynhadledd flynyddol Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru** ar 7 Hydref 2020 (gweler tudalennau 12-13).

3

Ein cefnogaeth economeg iechyd i ymchwilwyr sy'n gweithio yn seilwaith Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a Byrddau Iechyd a arweiniodd at **66 o geisiadau am grant cydweithredol ac yn cael eu harwain gan grŵp** yn ystod 2020/21.

4

Ein cydweithrediad â Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe i wneud gwerthusiad economaidd o'r ganolfan diagnosis cyflym (RDC) ar gyfer cleifion â symptomau amhenodol a allai fod o ganlyniad i ganser sydd wedi **galluogi'r gwaith o gyflwyno RDCs yn raddol ledled Cymru** a dechrau addasu'r gwasanaeth i ganserau (safle penodol) eraill (gweler tudalen 18).

5

Darparu cyngor a chefnogaeth economeg iechyd ar gyfer gwneud penderfyniadau, llunio polisiau a'r **ymateb i COVID-19**, cefnogi Llywodraeth Cymru, Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru a Choleg Arbenigwyr UKRI/NIHR yn ystod 2020/21 (gweler tudalen 16).

6

Gwella'r capasiti a'r gallu ar draws y gymuned economeg iechyd yng Nghymru, drwy **ddatblygu hwb methodolegol ar gyfer Cymru gyfan** ym maes economeg iechyd (gweler tudalen 20).

7

Creu fideo animeiddiad fel rhan o'r broses ail-frandio i helpu i gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o economeg iechyd ym maes iechyd a gofal. Rydym yn falch fod yr animeiddiad hwn wedi **ennill Gwobr y Rhith-arddangosfa Orau yng Nghynhadledd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru** ym mis Hydref 2020 (gweler tudalen 6).

UCHAFBWYNTIAU EIN MEYSYDD EFFAITH

Yn ystod 2020/21, cefnogodd HCEC y gwaith o wneud penderfyniadau a chynllunio mewn cyfnod pan oedd y galw'n fwy nag a welwyd erioed o'r blaen a helpodd i liniaru canlyniadau anfwriadol (a thymor hwy) COVID-19 a'r cyfnod ar ôl hynny o safbwynt iechyd a'r economi.

YMATEB HCEC I FLAENORIAETHAU COVID-19

Gwnaeth HCEC gyfraniad cryf i'r ymateb uniongyrchol i argyfwng COVID-19.

Cyflwynasom gynigion ymchwil i helpu i ymchwilio i'r effaith ar bobl ac economi Cymru a niweidiau a chanlyniadau anfwriadol ehangach COVID-19, a darparwyd tystiolaeth a fyddai'n achub bywydau ar ddiogelwch triniaethau a oedd yn cael eu profi ar gyfer eu defnyddio gyda COVID-19 (gweler tudalen 16).

Rydym hefyd yn cydweithio ar y treial HEAL-COVID sy'n cael ei ariannu gan NIHR, er mwyn gwerthuso opsiynau ar gyfer rheoli canlyniadau hirdymor

COVID-19 (gweler tudalen 11) a'r astudiaeth EVITE sy'n cael ei hariannu gan y Rhaglen Astudiaethau Craidd Cenedlaethol ar gyfer COVID-19 er mwyn canfod costau a chanlyniadau cynllun gwarchod y DU (gweler tudalen 12). Yn ychwanegol at hyn, mae HCEC yn cydweithio â Chanolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru er mwyn darparu cefnogaeth economeg iechyd i un o'r prif gyfeiriadau strategol ar gyfer HCRW yn ystod pandemig COVID-19 i ddarparu tystiolaeth gyflym, gadarn a chynrychioladol mewn ymateb i gwestiynau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.

EIN CYFRANIAD I FETHODOLEG A GWNEUD PENDERFYNIADAU



Fe wnaethom sefydlu Hwb Methodolegol Economeg Iechyd sydd â'r dasg ar hyn o bryd o gyfrannu persbectif Cymreig i'r gwaith o gynhyrchu set gwerth newydd y DU ar gyfer yr holiadur EQ-5D-5L, offeryn hanfodol er mwyn cyfrifo cost effeithiolrwydd sy'n ofynnol ar gyfer gwneud penderfyniadau ledled y DU (gweler tudalen 20).

HYBU LLES, ATAL A CHYNALIADWYEDD YNG NGHYMRU

O ganlyniad i'r dystiolaeth a gynhyrchwyd drwy ein cydweithrediad â Grŵp Gweithredu Diabetes Cymru Gyfan (AWDIG) ac Uned Ymchwil Diabetes Cymru (DRUCymru) cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y bydd yn buddsoddi £1 miliwn yn y rhaglen atal diabetes sydd wedi'i gwerthuso yn 2021 fel cam cyntaf y broses o'i rhoi ar waith yn genedlaethol. Bydd hyn yn helpu i leihau anghydraddoldebau iechyd rhwng Cymru a Lloegr a'r Alban sydd eisoes â rhaglenni tebyg ac mae'n hybu lles, atal a chynaliadwyedd yn unol â'r cynlluniau i newid a gwella'r system gofal iechyd a amlinellwyd yn 'Cymru Iachach: Ein Cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol' (gweler tudalennau 17-18).



Yr ymyriad ffordd o fyw effeithiol ar gyfer atal diabetes sy'n cael ei ddarparu gan weithiwr cefnogi wedi'i hyfforddi ac yn cael ei oruchwylio gan ddeietegydd.

GRYMUSO CLEIFION CANCER YR OESOFFAGWS AR DDIWEDD OES

Roedd y treial ROCS, y cyfeiriwyd ato fel treial a fyddai'n 'drobwynt' ym maes lliniaru, yn ymchwilio i effeithiolrwydd a chost-effeithiolrwydd radiotherapi pelydr allanol lliniarol yn ogystal â stentiau metel hunan-ehangol (SEMS) i wella dysffagia mewn cleifion cancer yr oesoffagws. Daeth y treial i'r casgliad nad oedd radiotherapi ar y cyd â gosod stent yn opsiwn effeithiol o safbwynt clinigol nac o safbwynt cost ar gyfer rheolaeth liniarol dysffagia. Bydd y dystiolaeth hon yn **sail i reolaeth glinigol, gan rymuso ymarferwyr a chleifion cancer yr oesoffagws i wneud dewisiadau iechyd a gofal sy'n seiliedig ar ffeithiau ar ddiwedd oes**. Disgwylir y bydd y canlyniadau hyn yn sail i ganllawiau cenedlaethol ar ddefnyddio'r driniaeth liniarol hon ledled y DU yn unol â'r 'Cynllun Cyflawni ar gyfer Gofal Lliniarol a Diwedd Oes' (2017) sy'n nodi sut y gall y GIG a'i bartneriaid ddarparu gofal a chefnogaeth i bobl ar ddiwedd eu hoes, a'u teuluoedd (gweler tudalen 13).

DIWEDDARIADAU AR BECYNNAU GWAITH

Cefnogir ein hamcanion gan bedwar pecyn gwaith:

- 1** Sicrhau cymaint ag sy'n bosibl o gydweithio ag ymchwilwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn enwedig grwpiau Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, ac Unedau Treialon Clinigol (CTU) gan gynnwys Gwasanaethau Cynllunio a Chynnal Ymchwil (RDCS) drwy gymuned arbenigedd Economeg Iechyd Cymru gyfan.
- 2** Cynnwys ac Ymgysylltu â Chleifion a'r Cyhoedd.
- 3** A) Darparu cyngor a chefnogaeth Economeg Iechyd i sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol yn erbyn blaenoriaethau ac anghenion Llywodraeth Cymru.
B) Cyfrannu arbenigedd Economeg Iechyd i'r broses o wneud penderfyniadau a llunio polisiau.
- 4** Meithrin capasiti a gallu mewn ymchwil Economeg Iechyd methodolegol a chymhwysol er mwyn gosod HCEC ar draws y gymuned Economeg Iechyd y mae ei gwaith o fudd i'n rhanddeiliaid yng Nghymru.

Mae'r astudiaethau achos a ganlyn yn dangos yr effaith a gafodd HCEC ym mhob un o'n pecynnau gwaith yn ystod 2020/21. Rydym yn tynnu sylw at feysydd lle mae ein cyfraniad a'n cefnogaeth wedi gwneud gwahaniaeth i ymchwil iechyd a gofal a darpariaeth er budd y GIG a phobl Cymru. Rydym hefyd yn cyflwyno ein prif gyflawniadau wrth ymateb i bandemig COVID-19.

AIL-FRANDIO GWOBWRWYOL

Yn ystod 2020/21, gwnaethom ail-frandio i Economeg Iechyd a Gofal Cymru (HCEC), a oedd yn cynnwys logo newydd, cyfrifon cyfryngau cymdeithasol newydd a gwefan newydd. Yn y llun ar y dde, mae aelodau HCEC yn falch o dderbyn y Wobr Arddangosfa Rithwir Orau a enillwyd yng Nghynhadledd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ym mis Hydref 2020 am ein animeiddiad sy'n disgrifio pwysigrwydd economeg iechyd a'r gwaith a wnawn fel HCEC.



PECYN GWAITH 1: SICRHAU CYMAINT AG SY’N BOSIBL O GYDWEITHIO AG YMCHWILWYR IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL

Cydweithio ag Ymchwilwyr Iechyd a Gofal i Sicrhau Effaith yn ystod COVID-19

Lliniaru Effaith Hirdymor COVID-19 ar draws Poblogaeth y DU

Beth oedd y cwestiwn y gallai HCEC helpu gydag ef?

Mae’r gyfradd marwolaethau COVID-19 ymadferol parhaus cyn uchod â 10%, ac mae tua 20% o’r cleifion a dderbynnir i ysbyty yn datblygu symptomau cardio-anadlol newydd neu symptomau sydd wedi gwaethygu cyn pen 60 diwrnod ar ôl cael eu rhyddhau o’r ysbyty. Rhaid gwella safon y gofal i gleifion sydd â COVID-19 ar sail tystiolaeth o ansawdd uchel yn ymwneud ag effeithiolrwydd a chost-effeithiolrwydd er mwyn gwella canlyniadau mwy hirdymor.

Beth wnaethom ni?

Mae ymchwilwyr HCEC dan arweiniad Dyfrig Hughes yn cyfrannu tuag at y treial HEAL-COVID aml-ganolfan y dyfarnwyd £3.6 miliwn iddo gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd (NIHR). Mewn cydweithrediad â Phrifysgol Caergrawnt ac Ysbyty Addenbrooke, byddwn yn gwneud dadansoddiad o gost-effeithiolrwydd er mwyn canfod gwerth am arian pob opsiwn triniaeth o safbwynt y GIG.

Disgwylir y bydd y treial HEAL-COVID, sy’n un o’r ymchwiliadau cyntaf i reolaeth canlyniadau hirdymor COVID-19, yn darparu canfyddiadau allweddol a fydd yn cyfrannu tuag at argymhellion seiliedig ar dystiolaeth a chanllawiau NICE ynglŷn â’r ymyriadau mwyaf effeithiol ac effeithlon i lywio safon gofal a gwella canlyniadau mwy hirdymor i bobl sydd wedi cael eu heffeithio gan COVID-19.



Dyfrig Hughes, Dyfrig Hughes, Aelod o Fwrdd Rheoli HCEC

Mae HCEC yn cefnogi'r gwaith o gynhyrchu tystiolaeth hollbwysig ynglŷn â manteision a niwed posibl gwarchod a fydd yn darparu gwybodaeth ac yn dylanwadu ar bolisiâu iechyd cyhoeddus cenedlaethol a rhyngwladol yn ymwneud â gwarchod mewn argyfyngau iechyd yn y dyfodol. Mae ein cyfraniad i'r astudiaeth gydweithredol hon yn dangos y rhan y mae ymchwilwyr yng Nghymru (a Grwpiau Seilwaith HCRW) yn ei chwarae yn yr ymateb cenedlaethol i COVID-19.



Berni Sewell, Aelod o Fwrdd Rheoli HCEC

Ymchwilio i Effaith y Cynllun Gwarchod rhag COVID-19

Beth oedd y cwestiwn y gallai HCEC helpu gydag ef?

Bwriadwyd y cynllun gwarchod, a gyflwynwyd ledled y DU yn ystod pandemig COVID-19, er mwyn gwarchod y rhai hynny a oedd yn wynebu'r risg fwyaf o niwed difrifol pe baent yn dal COVID-19 oherwydd cyflyrau a oedd ganddynt yn barod, er enghraifft canser. Fodd bynnag, nid oes tystiolaeth ynglŷn ag effeithiolrwydd ac effaith gwarchod ar ganlyniadau i gleifion a chostau.

Beth wnaethom ni?

Caiiff astudiaeth EVITE Immunity ei hariannu drwy Astudiaethau Craidd Cenedlaethol COVID-19 - Rhaglen Imiwnedd ar y cyd â Phrifysgol Birmingham er mwyn ymchwilio i effaith gwarchod ar leihau heintiadau COVID-19, salwch difrifol a marwolaethau ac imiwnedd. Bydd yr astudiaeth hefyd yn edrych ar niweidiau posibl ynysu o'r fath, gorbryder, iselder neu oedi â gofal ar gyfer problemau iechyd difrifol a chost-effeithiolrwydd gwarchod. Ar y cyd ag ymchwilwyr o PRIME a SAIL, sy'n edrych ar ganlyniadau iechyd sy'n gysylltiedig â COVID-19 ymhlith cleifion ar y rhestr warchod, o'u cymharu â'r cyhoedd yn gyffredinol, arweiniodd Berni Sewell y gwerthusiad o weithrediad a chost cyfle'r cynllun gwarchod i sector cyhoeddus Cymru.

HELPU CLEIFION I DDEWIS

Mae'r rhan fwyaf o'r cleifion sydd â chlefyd yr arenau yng Nghymru yn dewis dialysis mewn uned yn hytrach nag yn y cartref, sy'n cynyddu costau gofal iechyd a moesoldeb ac yn gostwng ansawdd bywyd. Roedd yr astudiaeth Fy Opsiynau a Dewsiadau, a ariannwyd gan gynllun Ymchwil er Budd Cleifion a'r Cyhoedd (RfPPB) HCRW, yn astudiaeth gyd-gynhyrchu a oedd yn cynnwys cleifion, eu teuluoedd a'u gofalwyr yn ogystal ag Uned Ymchwil Arenau Cymru ac arbenigwyr arenau profiadol o bob cwr o Gymru.

Grymuso Cleifion Canser yr Oesoffagws ar Ddiwedd Oes

Beth oedd y cwestiwn y gallai HCEC helpu gydag ef?

Mae'n bosibl y bydd ar gleifion sydd â chanser datblygedig yr oesoffagws angen cael stent metel hunan-ehangol yn yr oesoffagws ar gyfer dysffagia. Fodd bynnag, mae dysffagia sy'n dod yn ôl ac ailosod stent yn gyffredin. Roedd hap-dreial dan reolaeth, aml-ganolfan ROCS yn cael ei ariannu gan Raglen Asesu Technoleg Iechyd (HTA) NIHR ac yn cael ei arwain gan y Ganolfan Treialon Ymchwil ym Mhrifysgol Caerdydd ar y cyd â Chanolfannau Canser Tayside, Marie Curie a Felindre. Roedd y treial yn edrych ar effeithiolrwydd clinigol a chost-ffeithiolrwydd radiotherapi pelydr allanol (EBRT) ar ôl gosod stent o'i gymharu â gofal arferol er mwyn cynnal y gallu i lyncu ac ansawdd bywyd ymhlith cleifion gofal lliniarol.

Beth wnaethom ni?

Cynlluniodd a chynhaliodd Berni Sewell, Mari Jones, Katherine Cullen a Deb Fitzsimmons ddadansoddiad economeg iechyd cynhwysfawr ochr yn ochr â'r treial ROCS gan gynnwys model economaidd newydd er mwyn asesu cost-ffeithiolrwydd yr ymyriad ROCS. Cyflwynwyd pennod fanwl yn yr adroddiad NIHR, a gafodd adborth rhagorol, yn dilyn adolygiad gan gymheiriaid, ynglŷn ag ansawdd y dadansoddiad.

Beth yw'r effaith disgwylidig?

Daeth y treial ROCS i'r casgliad nad yw radiotherapi ar y cyd â gosod stent yn opsiwn effeithiol o safbwynt clinigol nac o safbwynt cost-ffeithiolrwydd ar gyfer rheolaeth liniarol dysffagia. Bydd y dystiolaeth hon, a gyhoeddwyd yn y Lancet Gastroenterology, yn sail i ganllawiau clinigol a rheolaeth glinigol ynglŷn â'r defnydd o'r driniaeth liniarol hon ar draws y DU yn unol â'r **'Cynllun Cyflawni ar gyfer Gofal Lliniarol a Diwedd Oes'** (2017), gan rymuso cleifion canser yr oesoffagws i wneud dewisiadau iechyd a gofal diwedd oes sy'n seiliedig ar ffeithiau.

OPSIYNAU DIALYSIS

Edrychodd Rhiannon Tudor Edwards a Jo Charles ar ddymuniadau a phryderon cleifion, y defnydd o wasanaethau gofal iechyd a chost opsiynau dialysis. Ar sail canlyniadau'r astudiaeth, gwnaethpwyd newidiadau i raglenni addysg mewn byrddau iechyd lleol yng Nghymru er mwyn grymuso cleifion i wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar ffeithiau ynglŷn â'u dulliau dialysis yn gyflymach a sicrhau cynaliadwyedd y gwasanaethau presennol sy'n cael eu darparu. Yn ychwanegol at hyn, bydd y dadansoddiad manwl hwn o gostau dialysis yn helpu i ddarparu gwybodaeth ar gyfer astudiaethau cost-ffeithiolrwydd a pholisi gofal iechyd yn y dyfodol a gallai hybu ailgynllunio gwasanaethau.

Rwy'n mwynhau gwneud cyfraniad i economeg iechyd ac ymchwil yng Nghymru. Wrth ysgrifennu cynllun gweithredu HCEC ar gyfer cynnwys ac ymgysylltu â'r cyhoedd, roeddwn bob amser yn teimlo bod fy sylwadau'n cael eu gwerthfawrogi a'u hystyried a bod pobl yn gweithredu arnynt.



*Karen Harrington,
Cynrychiolydd Cyhoeddus
HCEC*

Rwy'n gweithio ym maes gofal iechyd ac mae gennyf ddi-ddordeb mawr mewn economeg iechyd. Fel rhan o'r Bwrdd Cynghori, rwy'n fwyfwy ymwybodol o'r ffyrdd y gellir datblygu a newid gwasanaethau i fod yn fwy cost-effeithiol, ac yn y pen draw yn well i gleifion.



*Nathan Davies, Cynrychiolydd
Cyhoeddus HCEC*

PECYN GWAITH 2: CYNNWYS AC YMGYSYLLTU Â CHLEIFION A'R CYHOEDD

Mae economeg iechyd wedi dod yn rhan annatod o ymchwil iechyd a gofal ac rydym yn cydnabod gwerth llais y cyhoedd a chleifion mewn gwerthusiadau economaidd ym maes iechyd. Eleni rydym wedi bod yn gweithio gyda'r cyhoedd er mwyn datblygu ein cynllun gweithredu ein hunain, penderfynu ar flaenoriaethau ymchwil a chynhyrchu cwestiynau ymchwil. Penodwyd Llinos Haf Spencer a Liv Kosnes yn gyd-arweinyddion Cynnwys ac Ymgysylltu â Chleifion a'r Cyhoedd (PPIE) ac ymunodd Nathan Davies o ranbarth y De â'n cynrychiolydd hirdymor, Karen Harrington, fel aelod cyhoeddus o Fwrdd Cynghori HCEC. Rydym yn ddiolchgar am bopeth y mae Karen a Nathan yn ei wneud fel ein cynrychiolwyr cyhoeddus a hoffem ddiolch iddynt am eu cyfraniadau i HCEC yn ystod 2020/21.

Cynnwys y cyhoedd mewn ymchwil Economeg Iechyd – Grŵp Cynnwys y Cyhoedd HCEC

Cynhaliwyd rhith-gyfarfod cyntaf Grŵp Cynnwys y Cyhoedd HCEC ym mis Mawrth 2021. Mae gennym 18 o rifau cofrestredig ac rydym yn rhannu gwybodaeth yn ymwneud â chyflleoedd i gynnwys mewn ymchwil economeg iechyd yn rheolaidd. Yng nghyfarfod mis Mawrth, bu'r grŵp yn trafod y Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cynnwys y Cyhoedd fel y maent yn gysylltiedig â chynllun gweithredu PPIE HCEC, a mwynhawyd cyflwyniad llawn gwybodaeth am fesurau ansawdd bywyd a symudedd. Roeddem yn falch fod cynifer o'n cynrychiolwyr cyhoeddus yn awyddus i helpu i ddatblygu prosiectau ymchwil.

Er ein bod yn disgwyl i'n cyrhaeddiad a'n gweithgareddau aeddfedu yn ystod y cyfnod cyllido wrth i ni roi ein cynllun gweithredu PPIE ar waith, mae ein nod yn driphlyg o hyd: hysbysu, ymgynghori a chydweithredu â chleifion a'r cyhoedd.

Ein Cyd-gynhyrchiad a Wobrwywyd i roi Dewis i Gleifion Dialysis yng Nghymru

Enillodd yr astudiaeth Fy Opsiynau a Dewisiadau a gynhyrchwyd ar y cyd (gweler tudalennau 12-13) **Wobr Cyflawniad Cynnwys y Cyhoedd yng Nghynhadledd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru** ym mis Hydref 2020. Roedd cleifion â chlefyd yr arenau, aelodau o'u teuluoedd, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, a'r cyhoedd i gyd yn allweddol ym mhob agwedd ar yr ymchwil. Mae cydweithio wedi helpu i ddatblygu gweledigaethau a mapiau ffordd newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol mwy cynaliadwy ar gyfer cleifion arenau. Fel rhan o'r astudiaeth hon, aethom i ddigwyddiadau ar gyfer cymunedau du, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol (BAME) er mwyn cynnwys safbwyntiau lleiafrifol, gosodwyd stondinau mewn Neuaddau Bingo ac yn y Parêd GŴyl Ddewi, a rhoddwyd sgysiau arddull TED mewn gwyliau yn Amgueddfa Cymru. Roedd strategaeth gyfathrebu ein hastudiaeth yn cynnwys gwefan, y cyfryngau cymdeithasol, sianel YouTube, a chylchlythyr misol a dderbyniwyd gan dros 100 o bobl a 18 o unedau dialysis arenol yng Nghymru. Roedd yn wych gweld y PPI a chyd-gynhyrchu yn cael ei gydnabod. Mae cynifer o bobl wedi cyfrannu at yr ymchwil hwn, ac mae'r cynlluniau a'r llwybrau gwasanaeth newydd sydd wedi'u cyd-gynhyrchu yn esiampl o'r hyn y gellir ei gyflawni drwy gydweithio.

FYDDECH CHI'N HOFFI HELPŪ?

Os oes gennych ddiddordeb mewn helpu i ddatblygu ymchwil economeg iechyd yng Nghymru, byddem yn falch pe baech yn ystyried ymuno â grŵp Cynnwys ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd (PIG) HCEC. Caiff gwybodaeth am gyfleoedd cynnwys a manylion y prosiectau ymchwil cyfredol eu rhannu gydag unigolion yn y grŵp hwn drwy negeseuon ebost a newyddlenni. Os oes gennych ddiddordeb mewn ymuno â grŵp PIG HCEC fel aelod o'r cyhoedd ewch i'n gwefan a llenwch y ffurflen neu cysylltwch â Llinos (l.spencere@bangor.ac.uk) neu Liv (hcec@swansea.ac.uk).

Drwy rannu'r hyn rydym yn ei wneud, rydym yn cynyddu cyfleoedd ar gyfer deialog a chyfleoedd i ddysgu gan gleifion a'r cyhoedd am oblygiadau ein hymchwil. Mae'r cydweithrediad hwn yn ein helpu i wella ansawdd a pherthnasedd ein hymchwil.



Liv Kosnes, Cyd-arweinydd Ymgysylltu a Chynnwys y Cyhoedd, Economeg Iechyd a Gofal Cymru (HCEC)

Mae cynnwys y cyhoedd wrth wraidd yr hyn rydym yn ei wneud fel ymchwilwyr economeg iechyd. Mae ein cynrychiolwyr o'r cyhoedd yn aelodau amhrisiadwy o'r tîm. Mae eu mewnbwn a'u hadborth yn ein galluogi i ymgorffori ymgysylltu gyda'r cyhoedd fel elfen allweddol yn y gwaith rydym yn ei wneud.



Llinos Haf Spencer, Cyd-arweinydd Ymgysylltu a Chynnwys y Cyhoedd, Economeg Iechyd a Gofal Cymru (HCEC)

PECYN GWAITH 3A: DARPARU CYNGOR A CHEFNOGAETH ECONOMEG IECHYD

Roedd pandemig COVID-19 yn galw am addasiadau cyflym, gan gynnwys cydnabod y canlyniadau o safbwynt iechyd a'r economi, yn enwedig i boblogaethau agored i niwed yng Nghymru a thu hwnt. Yn ystod 2020/21, roedd ymatebion iechyd y cyhoedd a'r llywodraeth yn seiliedig ar y 'rheol achub', â llawer o wasanaethau a grwpiau o gleifion yn cael eu dad-flaenoriaethu er mwyn rheoli'r argyfwng iechyd. Mae'r pandemig, ynghyd ag effeithiau penderfyniad y DU i ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, wedi amlygu'r anghydraddoldebau sy'n bodoli o ran iechyd a chyfleoedd mewn bywyd, wrth i'r angen am ddiagnosis a thriniaeth ar gyfer canser a llawdriniaethau arferol gronni. Mae'n bwysicach heddiw nag erioed o'r blaen ein bod yn ymgorffori economeg iechyd mewn prosesau gwneud penderfyniadau a pholisïau er mwyn sicrhau ansawdd gofal a chynaliadwyedd ein system iechyd a gofal sydd dan bwysau.

Roedd cyfraniad cryf HCEC i'r ymateb i COVID-19 yng Nghymru yn cynnwys:

- Cyflwyno cynigion ymchwil i alwadau COVID-19 ar draws llwyfannau cyllido UKRI a NIHR i gefnogi ceisiadau â grwpiau ymchwil eraill i ymchwilio i effaith yr argyfwng presennol ar bobl ac economi Cymru a niweidiau ehangach a chanlyniadau anfwriadol COVID-19.
- Darparodd Dyfrig Hughes dystiolaeth a allai achub bywydau yn ymwneud â diogelwch triniaethau a oedd yn cael eu profi ar gyfer eu defnyddio i drin COVID-19, gan dynnu sylw at y risgiau a oedd yn gysylltiedig â defnyddio clorocwin ar ôl i nifer o bobl farw o ganlyniad i'w effaith wenwynig ar y galon ac achosion o orddos.
- Ymunodd Rhiannon Tudor Edwards a Deb Fitzsimmons â Choleg Arbenigwyr UKRI/NIHR i helpu i asesu grantiau yn gyflym, gan ddarparu nifer o adolygiadau yn aml o fewn 48 awr. Roedd Rhiannon Tudor Edwards, Pippa Anderson a Berni Sewell hefyd ar gofrestr o arbenigwyr i gefnogi Llywodraeth Cymru wrth iddi ymateb i COVID-19.
- Bu Rhiannon Tudor Edwards yn gweithio gyda Dr Brendan Collins (Prif Economegydd Iechyd Llywodraeth Cymru) ar y gwaith o fodelu profion torfol ym Merthyr Tudful a'r cyffiniau. Roedd hefyd yn aelod o grŵp o economegwyr a oedd yn cefnogi Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru i ymchwilio a lleihau creithiau posibl i economi Cymru yn y dyfodol.

Ein Cyfraniad i Ganolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru

Beth oedd y cwestiwn y gallai HCEC helpu gydag ef?

Un o'r prif gyfeiriadau strategol i Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn ystod pandemig COVID-19 oedd datblygu Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru i ddarparu tystiolaeth gyflym, gadarn a chynrychioladol mewn ymateb i gwestiynau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.

Beth wnaethom ni?

Mae ymchwilwyr HCEC yn gweithio gyda Sefydliad Ymchwil Iechyd a Meddygol Bangor (BIHMR), er mwyn cynnal y cyfraniad economeg iechyd i Ganolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru ar y cyd â Chanolfan Cymru ar gyfer Gofal sy'n Seiliedig ar Dystiolaeth, Canolfan Ragoriaeth Sefydliad Joanna Briggs, Prifysgol Caerdydd, Uned Arbenigol ar gyfer Tystiolaeth Adolygu, Technoleg Iechyd Cymru (HTW), Felindre, Banc Data SAIL, Prifysgol Abertawe, Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan (AWTTC) ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. O ganlyniad i'n hymateb cyflym, dechreuasom ddarparu crynodebau tystiolaeth cyflym, o safon uchel (e.e. ymdrin ag effeithiau COVID-19 ar ganser a phroffion diagnostig yn sgil y rhestrau aros hirach ar ôl y pandemig).

Darparu Gwybodaeth ar gyfer Rhaglen Atal Diabetes Gyntaf Cymru

Beth oedd y cwestiwn y gallai HCEC helpu gydag ef?

Roedd angen rhoi sylw a blaenoriaeth uchel i ddiffyg rhaglen atal diabetes ar lefel genedlaethol er mwyn lleihau nifer y bobl sy'n datblygu diabetes math 2 yng Nghymru. Gellir gwrthdroi datblygiad o gyn-ddiabetes i ddiabetes math 2 drwy ymyriadau ffordd o fyw. Fodd bynnag, roedd yr adnoddau a chostau rhaglenni atal Lloegr a'r Alban yn rhy uchel i'w gweithredu yng Nghymru a chanfuwyd nad oeddent yn effeithiol mewn ardaloedd lle mae amddifadedd economaidd-gymdeithasol. O ganlyniad roedd ar Gymru angen rhaglen a oedd yn fforddiadwy, yn ddichonadwy ac y gellid addasu ei maint neu ei graddfa.

Bydd ein cydweithrediad â Chanolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru, y ganolfan newydd, yn helpu Llywodraeth Cymru i ateb cwestiynau allweddol yn ymwneud â gwneud penderfyniadau yng Nghymru yn ystod y pandemig hwn ac yn y cyfnod adfer. Bydd HCEC yn gwneud cyfraniad cadarn a phendant i bolisi sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gan weithredu fel rhan o seilwaith HCRW. Mae hyn yn galluogi economeg iechyd ac ystyriaethau yn ymwneud â gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth wrth adolygu tystiolaeth a pholisi sy'n seiliedig ar dystiolaeth er budd yr economi a phobl Cymru.



*Rhiannon Tudor Edwards
Cyd-gyfarwyddwr Economeg
Iechyd a Gofal Cymru (HCEC)*

Enillodd y gwerthusiad o ymyriad ffordd o fyw i atal diabetes yng Nghymru wobr yn y **Gwobrau Ansawdd mewn Gofal**, ac ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru, ar sail yr ymchwil gydweithredol hon, y bydd yn buddsoddi £1 miliwn yn y rhaglen atal diabetes gyntaf yng Nghymru yn 2021 fel cam cyntaf y broses o'i gyflwyno yn genedlaethol. Mae rhagor o ymchwil yn cael ei drafod gyda lechyd Cyhoeddus Cymru ac mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gefnogi'r gwerthusiad fel rhan o'r cyllid cyffredinol.



Pippa Anderson, Aelod o Fwrdd Rheoli, Economeg Iechyd a Gofal Cymru (HCEC)

Beth wnaethom ni?

Bu Pippa Anderson a Shaun Harris yn cydweithio â Grŵp Gweithredu Diabetes Cymru Gyfan (AWDIG) ac Uned Ymchwil Diabetes Cymru (DRUCymru) er mwyn gwneud gwerthusiad economeg iechyd pragmatig yn seiliedig ar fodel a dadansoddiad o gostau gweithredu a chyflwyno'n raddol ar gyfer Cymru. Defnyddiasom ddata a oedd yn bodoli'n barod a data wedi'u cyhoeddi er mwyn amcangyfrif cost-effeithiolrwydd ymyriad ffordd o fyw effeithiol, byr lle gwelwyd y rhan fwyaf o'r cleifion yn dychwelyd i amrediad glwcos gwaed normal. Roedd canlyniadau'r gwerthusiad economaidd yn awgrymu bod darparu'r ymyriad ffordd o fyw yn gwella iechyd cleifion ac ansawdd bywyd sy'n gysylltiedig ag iechyd ac yn arbed costau ac adnoddau'r GIG o'i gymharu â 'gofal arferol' mewn lleoliad gofal sylfaenol yng Nghymru, ac y gallai arbed £6 miliwn o adnoddau GIG Cymru ym mhob Bwrdd Iechyd dros gyfnod o ddeng mlynedd.

MYND I'R AFAEL AG ANGHYDRADDOLDEBAU IECHYD MEWN CANSER

Roedd ein gwerthusiad economaidd o'r ganolfan diagnosis cyflym (RDC) ar gyfer symptomau canser amhenodol ar y cyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (SBUHB) yn allweddol ar gyfer mabwysiadu'r ganolfan fel gwasanaeth parhaol yn y Bwrdd Iechyd, ac erbyn hyn mae'n cael ei hystyried fel y model blaengar yng Nghymru. O ganlyniad i lwyddiant y gwasanaeth a'r dystiolaeth o gost-effeithiolrwydd a ddarparwyd gan HCEC, mae'r rhaglen RDC bellach yn cael ei chyflwyno'n raddol mewn rhannau eraill o Gymru ac yn cael ei datblygu ymhellach i fodolau RDC ar gyfer canserau lleoliad penodol er mwyn lleihau'r amser y mae'n ei gymryd cyn cael diagnosis o ganser a gwella canlyniadau a goroesiad cleifion yng Nghymru. Rydym yn dal i weithio mewn cysylltiad agos â SBUHB ac eraill er mwyn helpu i gyflwyno cynlluniau RDC eraill, lle mae Cymru yn cael ei gweld fwy a mwy fel arweinydd yn y maes ar lefel genedlaethol a rhyngwladol.

PECYN GWAITH 3B: CYFRANNU ARBENIGEDD ECONOMEG IECHYD I WNEUD PENDERFYNIADAU A LLUNIO POLISIAU

Fe wnaethom ddarparu uwch gefnogaeth barhaus i gyfarfodydd pwyllgorau llunio polisiau er mwyn sicrhau bod economeg iechyd yn rhan annatod o wneud penderfyniadau yng Nghymru. Bydd ystyried economeg iechyd wrth wneud penderfyniadau a dewisiadau anodd yn cynyddu effeithlonrwydd a chynaliadwyedd y system iechyd a gofal ac yn gwella gofal cleifion a chanlyniadau yn y pen draw.

Mae staff HCEC yn aelodau o'r cyrff penderfyniadau cenedlaethol a ganlyn:

- Grŵp Meddyginiaethau Newydd (NMG) a Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG)
- Grŵp Comisiynu Llwybrau Interim (IPCG)
- Bwrdd Caffael sy'n Seiliedig ar Dystiolaeth (EBPB)
- Technoleg Iechyd Cymru (HTW)
- Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC)
- Rls-grŵp Gweithredu Ymchwil ac Arloesi
- Bwrdd Rhaglenni Therapiau Datblygedig Cymru
- Dyfarniadau Grantiau Ymchwil gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a Phaneli Grantiau Ymchwil er Budd Cleifion a'r Cyhoedd

Bu HCEC yn gweithio gyda Chanolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan (AWTTC) er mwyn datblygu fframwaith sy'n seiliedig ar dystiolaeth i gefnogi'r gwaith o ailasesu meddyginiaethau a nodwyd fel rhai a allai fod â gwerth isel ar gyfer presgripsiynu yn GIG Cymru. Fe wnaethom ddatblygu a threialu llwybr ailasesu gan ddefnyddio dulliau modelu economaidd a data presgripsiynu arferol. Mabwysiadwyd y fframwaith hwn ar gyfer ailddyrranu adnoddau technolegau gwerth isel gan Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (AWSMG) yn niwedd 2020. Gwnaeth y prosiect hwn gyfraniad uniongyrchol tuag at yr agenda gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth ac mae'n cefnogi ailddyrranu adnoddau (dadfuddsoddi) fel y nodir yn strategaeth 5 mlynedd AWSMG.



Deb Fitzsimmons,
Cyd-gyfarwyddwr, Economeg
Iechyd a Gofal Cymru (HCEC)

PECYN GWAITH 4: ADEILADU CAPASITI A GALLU MEWN YMCHWIL ECONOMECH IECHYD METHODOLEGOL A CHYMHWYSOL

Gwella Cadernid Dadansoddiad Cost a Budd ar lefel y DU

Beth oedd y cwestiwn y gallai HCEC helpu gydag ef?

Mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) yn defnyddio tystiolaeth o gost-effeithiolrwydd cyffuriau newydd a chyffuriau sy'n bodoli'n barod er mwyn penderfynu a ddylid eu hargymell yng Nghymru a Lloegr. Mae'r flwyddyn fywyd a addaswyd yn ôl ansawdd (QALY) a ddefnyddiwyd yn yr asesiad hwn yn gofyn am fesur o ansawdd bywyd sy'n gysylltiedig ag iechyd. Mae NICE yn argymhell bod hyn yn cael ei wneud drwy ddefnyddio'r holiadur EQ-5D, y ceir dau fersiwn ohono (3L a 5L). Mae algorithmau yn rhoi gwerth rhifiadol ar y cyflyrau iechyd hyn sy'n deillio o setiau gwerth cenedlaethol sy'n dweud sut y mae'r boblogaeth yn gwerthuso bod mewn gwahanol gyflyrau iechyd/cyfuniadau o atebion i'r holiadur. Mae set gwerthoedd EQ-5D-5L ar gyfer Lloegr yn bodoli, ond nid yw'n cael ei hargymell oherwydd pryderon ynglŷn â'i hansawdd a'i dibynadwyedd. Oherwydd hyn, comisiynwyd yr astudiaeth werthuso EQ-5D-5L newydd ar gyfer y DU. Gan fod canllawiau NICE yn gymwys i Gymru a Lloegr, mae'n hollbwysig bod yr offer gwerthuso a ddefnyddir hefyd yn adlewyrchu gwerthoedd pobl sy'n byw yng Nghymru, ac nid yw hynny'n wir ar hyn o bryd.

Beth wnaethom ni?


Mae HCEC yn cefnogi cyfraniad Cymru i'r astudiaeth werthuso genedlaethol, sy'n cael ei harwain gan Brifysgol Sheffield ac yn cael ei hariannu gan Grŵp EuroQoL. Cafodd y gwaith o gasglu data ei ddal yn ôl gan bandemig COVID-19 ond disgwyliar y bydd yn dechrau yn 2021.

Beth yw'r effaith ddisgwyliedig?

Bydd y gwaith methodolegol hwn a gyflawnwyd gan HCEC yn sicrhau bod poblogaeth Cymru yn cael ei chynnwys yn set werthuso'r DU. Bydd hyn yn rhoi hyder i ymchwilwyr a phobl a fydd yn gwneud penderfyniadau yn y dyfodol bod ganddynt set werthuso gadarn sydd hefyd yn cynrychioli gwerthoedd (pwysoliad) poblogaeth Cymru. Bydd y set gwerthoedd EQ-5D 5L newydd yn gwneud cyfraniad sylweddol i Gymru a'r DU gan ei bod yn sail i bob cyflwyniad technoleg iechyd i HTW, AWMMSG a NICE ac yn rhyngwladol. Bydd y gwaith hwn yn sail i'r rhan fwyaf o'r penderfyniadau yn ymwneud ag a ddylai cyffuriau neu driniaethau newydd gael eu hariannu neu eu cyflwyno i gleifion yng Nghymru a Lloegr yn y dyfodol.

MEITHRIN CYMUNED ECONOMEG IECHYD YNG NGHYMRU

Ym mis Hydref 2020, cynhaliodd HCEC rith-gyfarfod cyntaf Grŵp Economegwyr Iechyd Cymru (WHEG) ac roedd dros 40 o economegwyr iechyd, ymchwilwyr yng nghyfnod cynnar eu gyrfa a myfyrwyr PhD yn bresennol ynddo. Mae'r cyfarfod yn gyfle gwerthfawr i drafod cyfeiriad strategol economeg iechyd drwy Gymru gyfan a chryfhau cydweithrediad ym maes economeg iechyd ledled Cymru. Yn 2020/21, buom yn dathlu cyfraniad yr Athro Ceri Phillips i faes economeg iechyd yng Nghymru a thu hwnt, gan gynnwys ei rôl yn datblygu gofal iechyd darbodus yng Nghymru. Testun ei sgwrs oedd 'Fair innings', ac roedd yn gipolwg i ni ar gyfraniad posibl economeg iechyd i ymchwil a pholisi.



Testun sgwrs Brendan Collins (Pennaeth Economeg Iechyd Llywodraeth Cymru) oedd 'Covid19: a health shock and economic shock'.

ARWAIN Y GWAITH O WELLA MESURAU CANLYNIADAU A ADRODDWYD GAN GLEIFION AR GYFER CANCER Y PANCREAS

Dyfarfodwyd grant i HCEC gan rownd gyllid Ansawdd Bywyd 2020 y Sefydliad Ewropeaidd ar gyfer Ymchwil a Thriniaeth Canser (EORTC) er mwyn datblygu rhaglen waith i ddiweddarau mesurau canlyniadau a adroddwyd gan gleifion ar gyfer cancer y pancreas. Deb Fitzsimmons sy'n arwain y cydweithrediad rhyngwladol hwn (y DU, Ewrop, UDA, Gogledd Affrica ac India), ac mae hefyd wedi ymuno â Grŵp Canser y Llwybr Gastroberfeddol EORTC a'r Tasglu Pancreatig fel yr 'Arbenigwr Ansawdd Bywyd' i ddarparu gwybodaeth ar gyfer datblygu treialon clinigol yn y dyfodol yn y maes. Rydym hefyd yn creu cysylltiadau ffurfiol gyda'r Sefydliad Ymchwil Canser Cenedlaethol a bwriedir gwneud cyflwyniad i'r grŵp ym mis Tachwedd 2021.

Mae ein gwerthusiad o gost rheoli llosgiadau difrifol yn Nepal yn canolbwyntio ar atal, gwella iechyd ac anghydraddoldeb, ac mae'n dangos sut y mae HCEC yn 'hybu ac yn diogelu lle Cymru yn y byd', yn meithrin perthnasoedd â grwpiau allweddol ledled y DU ac yn rhyngwladol, yn ein gwneud yn fwy amlwg ac yn hyrwyddo rhagoriaeth economeg iechyd yn rhyngwladol, a fydd yn ein helpu i ddod â mwy o gyfleoedd cyllid i Gymru.



*Julia Lowin, Ymchwilydd
Economeg Iechyd a
Gofal Cymru (HCEC)*

EIN CYDWEITHREDIADAU

Gweithio gyda'n Gilydd er mwyn Gwella Canlyniadau Llosgiadau mewn Gwledydd Incwm Isel

Beth oedd y cwestiwn y gallai HCEC helpu gydag ef?

Yn 2017, bu Pippa Anderson a Deb Fitzsimmons yn cydweithio gyda chydweithwyr yn Interburns, rhan o'r Ganolfan Polisi ac Ymchwil Anafiadau Llosgi Byd-eang (CGBIPR), er mwyn sicrhau dyfarniad 3 blynedd gan **Grŵp Iechyd Byd-eang NIHR** i gefnogi, cynllunio a chynnal prosiectau mewn gwledydd incwm isel a chanolig. Fel rhan o'r dyfarniad, nodwyd rheoli llosgiadau difrifol yn Nepal fel maes allweddol sy'n achosi pryder o safbwynt iechyd y cyhoedd y dylid rhoi sylw iddo.

Beth wnaethom ni?

Cynlluniodd Narayan Poudel, Julia Lowin a thîm y prosiect CGBIPR ddull newydd o amcangyfrif costau fel rhan o ymrwymiad HCEC i ddatblygu arbenigedd methodolegol mewn ymchwil economeg iechyd, a chynhaliwyd rhaglen ymchwil sylfaenol (gan gynnwys pedair wythnos o waith maes yn Nepal) er mwyn amcangyfrif costau rheoli llosgiadau difrifol ymhlith cleifion mewnol ar y cyd â chlinigwyr ac ymchwilwyr yn ysbytai Sushma Koirala a Kirtipur.

Beth yw'r effaith ddisgwyliedig?

Dangosodd y prosiect Nepal beth oedd y prif heriau wrth gynnal ymchwil sylfaenol mewn gwledydd incwm isel a chanolig a darparodd amcangyfrif cychwynnol cadarn o un elfen o gost anafiadau llosgiadau i System Gofal Iechyd Nepal a'r economi, y gellid ei bwydo yn ôl i lunwyr polisi a chlinigwyr lleol. Â chyhoeddiadau yn y Journal of Burn Care a Burns, dangosodd HCEC y cyfraniad y gall ymchwil sy'n cael ei arwain yng Nghymru ei wneud fel partneriaid ar ddyfarniad grant cystadleuol rhyngwladol, gan greu sail dystiolaeth gref i hybu strategaethau atal llosgiadau, adeiladu capasiti gofal iechyd a gwella canlyniadau clinigol cleifion yn rhai o'r ardaloedd tlotaf yn y byd sy'n cael eu heffeithio fwyaf gan wrthdaro.

RHAI O'R SEFYDLIADAU SY'N CYDWEITHIO Â NI



GIG
CYMRU
NHS
WALES



Technoleg Iechyd Cymru
Health Technology Wales



Canolfan PRIME Cymru
PRIME Centre Wales



AWTTC

All Wales Therapeutics
& Toxicology Centre



Swansea
University
Prifysgol
Abertawe

Swansea Trials Unit
Uned Dreialon Abertawe

UNED YMCHWIL
DIABETES CYMRU

DIABETES RESEARCH
UNIT CYMRU


Rydym yn darparu uwch gyngor economeg iechyd i AWMSC ac yn eu cefnogi ag arfarniadau o dystiolaeth a thrwy ein gwaith ar ddadfuddsoddi mewn meddyginiaeth gwerth isel.



Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau
Cymru Gyfan

All Wales Medicines Strategy Group

Rydym yn cydweithio ar grant rhaglen NIHR, sy'n werth £5 miliwn, dan arweiniad Coleg y Brifysgol Llundain, gan ymchwilio i effeithiolrwydd a chost-effeithiolrwydd grwpiau cefnogi i bobl sy'n byw â mathau anghyffredin o ddementia.



Y Ganolfan Ymchwil Heneiddio a Dementia

Centre for Ageing & Dementia Research

Mae nifer o astudiaethau sy'n cael eu cefnogi gan HCEC (gan gynnwys treial HEAL-COVID ac astudiaeth EVITE) yn defnyddio data o gronfa ddata SAIL ac rydym yn cydweithio ar Ganolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru 2021-2023.



SAIL DATABANK



Centre for
Trials Research



Canolfan
Ymchwil Treialon




Research Design
& Conduct Service

Gwasanaeth Cynllunio
a Chynnal Ymchwil

CASGLIADAU – DYSGU GWERSI AC EDRYCH YMLAEN

Er gwaethaf heriau pandemig COVID-19, yn ystod y flwyddyn gwelwyd egni ac ymrwymiad o'r newydd i ddarparu ein cyfraniad economeg iechyd drwy Gymru gyfan i ymchwil iechyd a gofal ledled Cymru. Teimlwn fod ein hunaniaeth newydd fel HCEC yn adlewyrchu ein bod bellach yn cychwyn ymchwil ac yn arloesi, yn ogystal â chefnogi ymchwil sefydliadau eraill. Yn ein hail flwyddyn fel HCEC, byddwn yn canolbwyntio ar ddatblygu ein harweinyddiaeth mewn ymchwil, yn cynyddu ein uchelgais i sicrhau mwy o gyllid, ac yn cydnabod cyfleoedd gwych i ni weithio gyda'r GIG a Sefydliadau Gofal. Byddwn yn rhoi blaenoriaeth i ymgysylltu wedi'i dargedu â grwpiau eraill Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, yn enwedig grwpiau newydd neu grwpiau sy'n bodoli'n barod lle mae llai o gydweithredu hanesyddol. Rydym yn awyddus i gyfrannu tuag at uchelgais fwy 'byd-eang' yng nghyrhaeddiad ac arwyddocâd ein gwaith a sicrhau ein bod yn cadw at y trywydd iawn wrth weithio ledled y DU i sicrhau llwyddiant â'r prif gyrrff cyllido. Ar ôl addasu i'r 'normal newydd' a dysgu o heriau 2020/21, rydym yn edrych ymlaen at gyfleoedd cyffrous y flwyddyn sydd o'n blaenau.



Byddwn yn dal i gefnogi prosesau gwneud penderfyniadau drwy ddatblygu capasiti a gallu ein gweithlu i ddarparu'r sgiliau methodolegol, technegol a dadansoddol sydd eu hangen ar gyfer gwaith dadansoddi economeg iechyd o safon uchel tra'n sicrhau ein bod hefyd yn parhau'n hyddysg mewn gwerthuso yn y byd go iawn.

DARGANFOD MWY

I gael mwy o wybodaeth am Economeg Iechyd a Gofal Cymru, ein gwaith a sut y gallwn eich cefnogi chi, ewch i'n gwefan: <https://economegiechydagofal.cymru/>

YMUNWCH Â NI AR Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL



<https://facebook.com/economicscymru/>



<https://twitter.com/hcecymru/>

CYSYLLTWCH Â NI

Os hoffech gael cyngor yn ymwneud ag economeg iechyd, neu drafod sut y gallwn gefnogi eich ymchwil, mae croeso i chi anfon e-bost atom:

Ar gyfer De Cymru - HCEC@swansea.ac.uk (Prifysgol Abertawe)

Ar gyfer Gogledd Cymru - HCEC@bangor.ac.uk (Prifysgol Bangor)

